# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)22-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf  2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Rosemary Butler, Dirprwy Lywydd  (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Llywydd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Lywydd.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)21-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 8 Gorffennaf 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)22-08(p1)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno i ddwyn ymlaen y cynigion canlynol ddydd Mercher :

I sefydlu ac ethol Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig;

I adolygu Rheolau Sefydlog 25.19 a 25.20;

I gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau ar Gynnal Trafodion yn Briodol  mewn perthynas â Phwyllgorau Gweithdrefn Arbennig y Cynulliad, a gyhoeddwyd yn unol â Rheol Sefydlog 2.17;

I ethol Huw Lewis fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Lynne Neagle; ac

I ethol Joyce Watson fel aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Huw Lewis.

3.2 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 4.30pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 15 a 16 Gorffennaf 2008.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)22-08(p2)**

3.4  Nododd y Pwyllgor Amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)22-08(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

3.7 Parhaodd y Pwyllgor â'r drafodaeth ar newid amser y Cyfarfodydd Llawn. Cytunwyd y byddai amseroedd y cyfarfod llawn yn aros fel yr oeddent am yr wythnos gyntaf ar ôl Toriad yr Haf, gyda'r bwriad i gyflwyno'r amseroedd newydd ar gyfer y Cyfarfod Llawn (1.30 - 6pm) cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.

3.8 Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur ar oblygiadau gweithdrefnol newid amseroedd y cyfarfod llawn a'r opsiynau ar gyfer trefn busnes y cyfarfod llawn unwaith y bônt wedi'u cyflwyno. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddosbarthu i'r Rheolwyr Busnes dros doriad yr haf fel y gellid dod i gytundeb yn gynnar yn nhymor yr Hydref.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Papur gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad: Nodi beth sy'n graffu effeithiol - BC(3)22-08(p4)**

4.1 Ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur a gomisiynwyd yn flaenorol ar adnabod craffu effeithiol. Cytunodd y Pwyllgor ar ddadansoddiad y papur o ganlyniadau craffu effeithiol a nodi y byddai opsiynau i asesu i ba raddau yr oedd y rhain yn cael eu mynegi yn cael ei drafod gan y Pwyllgor eto yn dilyn toriad yr haf.

**Cais gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i ymweld â San Steffan - BC(3)22-08(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i ymweld â San Steffan ddydd Llun, 3 Tachwedd, fel rhan o'i ymchwiliad i graffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig.

**5. Trefniadau Cyflwyno**

Toriad yr Haf: Trefniadau Cyflwyno ar gyfer y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth - BC(3)22-08(p6)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiau cyflwyno yn dilyn Toriad yr Haf:

Byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn agor ar 16-19 Medi ar gyfer cyflwyno busnes ar gyfer y ddwy wythnos gyntaf yn dilyn Toriad yr Haf.

Byddai'r Swyddfa Ddeddfwriaeth yn agored 15-19 Medi ar gyfer cyflwyno diwygiadau i'r Mesur arfaethedig Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), i'w ystyried ar Gyfnod 3 y trafodion.

Nododd y Pwyllgor y byddai Clercod ar ddyletswydd ar gael trwy gydol y toriad.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig. Cytunwyd y caiff Aelodau gyflwyno hyd at bum cwestiwn ysgrifenedig yr wythnos trwy gydol Toriad yr Haf gydag amser "terfyn" wythnosol o 10:30am ar ddyddiau Mercher bob wythnos.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**